Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-L/VG/0755/17

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

14 Tachwedd 2017

Annwyl Dr Lloyd

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 8 Tachwedd yn dilyn canslo cyfarfod o'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, lle yr oeddwn i fod i roi tystiolaeth am Fil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru).

Rwy'n ysgrifennu atoch gydag ymateb Llywodraeth Cymru i'r cwestiynau y mae'r Pwyllgor wedi'u gofyn am y Bil.

Edrychaf ymlaen at fynychu'r sesiwn graffu sydd wedi'i threfnu ar gyfer 11 Ionawr.

Yn gywir

Vaughan Gething

Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru)

I'w nodi:

Mae Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) (y Bil) yn cynnig y byddai'r isafbris uned at ddibenion y Bil yn cael ei bennu mewn rheoliadau sydd i'w gwneud gan Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, at ddibenion dangos ei effeithiau a'r costau a'r manteision cysylltiedig, mae'r ymatebion isod, fel y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil, yn defnyddio isafbris uned o 50c fel enghraifft. Lle mae ymchwil neu ddadansoddiad wedi defnyddio isafbris uned arall (er enghraifft, 45c), tynnir sylw at hyn. Gallai'r isafbris uned penodedig fod yn uwch neu'n is na'r symiau hyn.

Nodir diffiniadau o yfwyr cymedrol, peryglus a niweidiol isod:

Yfwyr cymedrol yw dynion sy'n yfed llai na 21 uned yr wythnos a menywod sy'n yfed llai na 14 uned. Yn ôl y diffiniad yn adroddiad Meng et al. (2014): *Model-based appraisal of minimum unit pricing for alcohol in Wales*.

Yfwyr peryglus/yfwyr â risgiau cynyddol – dynion sy'n yfed mwy na thair i bedair uned y diwrnod yn rheolaidd ond llai na'r lefelau risg uwch. Menywod sy'n yfed mwy na dwy i dair uned y diwrnod yn rheolaidd ond llai na'r lefelau risg uwch Yn ôl y diffiniad yn adroddiad Meng et al. (2014): *Model-based appraisal of minimum unit pricing for alcohol in Wales*.

Yfwyr niweidiol/risg uchel – dynion sy'n yfed mwy nag wyth uned y diwrnod yn rheolaidd neu fwy na 50 uned o alcohol yr wythnos. Menywod sy'n yfed mwy na chwe uned y diwrnod yn rheolaidd neu fwy na 35 uned o alcohol yr wythnos. Yn ôl y diffiniad yn adroddiad Meng et al. (2014): *Model-based appraisal of minimum unit pricing for alcohol in Wales*.

Mae'r ymatebion isod yn seiliedig ar y gyfraith achosion gyfredol ar ddyddiad yr ymateb. Pan gaiff ei chyhoeddi, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried manylion dyfarniad y Goruchaf Lys mewn perthynas â'r achos *Scotch Whisky Association ac eraill* v *Yr Arglwydd Eiriolwr a pherson arall*. Disgwylir i'r dyfarniad hwn gael ei gyflwyno ar 15 Tachwedd 2017.

Achos iechyd y cyhoedd ar gyfer y Bil

1) Pa ganlyniadau iechyd y cyhoedd y mae Llywodraeth Cymru yn eu disgwyl yn sgil cyflwyno isafbris am alcohol yng Nghymru?

Mae'r Bil wedi'i anelu at leihau lefelau yfed peryglus a niweidiol yng Nghymru a'r niwed cysylltiedig drwy gyflwyno isafbris am alcohol, a thrwy hynny leihau'r alcohol rhad, cryf sydd ar gael.

Rydym yn disgwyl gweld lleihad yn nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol a lleihad mewn derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag alcohol oherwydd bod yfwyr peryglus a niweidiol yn tueddu i yfed mwy o gynhyrchion rhad sy'n cynnwys lefelau alcohol uchel.

Mae'r holl farwolaethau sy'n gysylltieidg ag alcohol yn rhai y gellir eu hosgoi ac mae hyn yn dangos bod angen cymryd rhagor o gamau a gwneud cynnydd pellach ar fyrder. Rydym o'r farn y gall cyflwyno isafbris am alcohol wneud cyfraniad pwysig at fynd i'r afael â'r difrod a achosir gan y broblem hon y mae modd ei hatal.

Comisiynwyd Sheffield Alcohol Research Group o Brifysgol Sheffield gan Lywodraeth Cymru i fodelu effeithiau posibl ystod o bolisïau pennu pris alcohol yng Nghymru. Ar 8 Rhagfyr 2014, cyhoeddwyd yr adroddiad, a oedd yn dwyn y teitl *Model-based appraisal of minimum unit pricing for alcohol in Wales*[1]. Daeth y gwaith modelu a wnaed gan Brifysgol Sheffield i'r casgliad y byddai'r polisïau ar gyfer pennu isafbris uned yn effeithiol o ran lleihau'r defnydd o alcohol, niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol (gan gynnwys marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol, derbyniadau i'r ysbyty, troseddau ac absenoldeb o'r gwaith) a'r costau sy'n gysylltiedig â'r niwed hwnnw. Er enghraifft, amcangyfrifwyd y byddai cyflwyno isafbris uned yn arwain at leihad o fwy na 50 y cant y flwyddyn yn nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol a lleihad o 1,400 y flwyddyn mewn derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag alcohol, pe bai'r isafbris uned yn 50c.

2) Pa fesurau a fydd yn cael eu defnyddio i werthuso effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth? A fydd gwerthusiad ar ôl 5 mlynedd yn rhoi darlun digon clir i ni, o ystyried y bydd rhai o'r effeithiau ar iechyd ond yn dod i'r amlwg yn y tymor hwy?

Mae'r Bil yn ymrwymo Gweinidogion Cymru i osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ac yna gyhoeddi - bum mlynedd ar ôl cyflwyno'r isafbris - adroddiad am weithrediad ac effaith y Ddeddf yn ystod y cyfnod hwnnw. Ar hyn o bryd mae fy swyddogion yn datblygu cynllun gwerthuso a byddant yn comisiynu gwaith i gefnogi gwerthusiad ac adolygiad llawn o'r isafbris uned yng Nghymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro ystod o wahanol ddangosyddion lle rydym yn disgwyl gweld newid, gan gynnwys, er enghraifft, nifer y derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i gamddefnyddio alcohol a lleihad yn nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol. Byddwn hefyd yn monitro data prisiau ar gyfer gwahanol gynhyrchion alcohol, yn ogystal â lefelau yfed alcohol yn gyffredinol ar draws y boblogaeth ac ymhlith gwahanol is-grwpiau, gan gynnwys yfwyr peryglus a niweidiol, sef targed y ddeddfwriaeth hon. Rhoddir ystyriaeth bellach i gynnwys y gwerthusiad a'r adolygiad dros y misoedd nesaf, gyda'r bwriad o ddysgu gwersi o'r gwerthusiad a'r adolygiad sy'n cael eu cynnal yn yr Alban.

Mae'n debygol y bydd oedi rhwng cyflwyno'r isafbris uned a newidiadau mewn ymddygiad unigolion. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai adolygiad pum mlynedd

[1] http://gov.wales/docs/caecd/research/2014/141208-model-based-appraisal-minimum-unit-price-alcohol-en.pdf

yw'r adeg gynharaf y bydd y polisi wedi ymsefydlu ac y byddai digon o ddata ar gael i asesu ei effeithiolrwydd.

Fodd bynnag, er y gall fod angen cyfnod hwy er mwyn i rai o'r effeithiau iechyd ddod i'r amlwg, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod adolygiad o'i weithrediad a'i effaith ar ôl pum mlynedd yn gymesur ac y dylai fod rhywfaint o arwydd o effaith y ddeddfwriaeth bryd hynny.

Cymhwysedd

3) A allwch egluro, er gwybodaeth, eich safbwynt ar gymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol, y rhesymau dros gyflwyno'r Bil hwn nawr, a'ch bwriadau yn dilyn dyfarniad y Goruchaf Lys ar ddeddfwriaeth berthnasol yr Alban?

Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y Bil o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol ar sail y gyfraith achosion gyfredol.

Roeddem yn croesawu'r dyfarniad diweddaraf o ran yr ymgyfreitha sy'n ymwneud â deddfwriaeth isafbris yr Alban, lle y gwrthodwyd dadleuon y Scotch Whisky Association ac eraill bod Deddf Alcohol (Isafbris) (Yr Alban) 2012 yn anghydnaws â chyfraith yr UE. Ar sail y gyfraith achos hon y cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Bil i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Er ein bod yn dal i ddisgwyl canlyniad yr apêl gan y Scotch Whisky Association pan gyflwynwyd y Bil i'r Cynulliad, nid oeddem am golli unrhyw amser o ran cynnwys y Bil yn rhaglen ddeddfwriaethol eleni.

Mae gan Lywodraeth Cymru ffenestr gyfle i gyflwyno'r Bil hwn o dan gyfundrefn bresennol Cymru; bydd hyn yn newid pan ddaw Deddf Cymru 2017 i rym ym mis Ebrill 2018. Drwy gyflwyno deddfwriaeth ar isafbris yng Nghymru nawr, gallwn gyflwyno newid cyn gynted â phosibl a sicrhau manteision iechyd a chymdeithasol ehangach. Rydym yn cymryd camau yn awr drwy gyflwyno deddfwriaeth y credwn y bydd yn achub bywydau.

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol ar ystod eang o faterion iechyd y cyhoedd ac mae'r Bil hwn yn ymwneud yn benodol â diogelu bywyd ac iechyd.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol, fodd bynnag, bod y Goruchaf Lys wedi datgan ei fwriad i gyhoeddi ei ddyfarniad yn achos y *Scotch Whisky Association ac eraill (Apelyddion)* v *Yr Arglwydd Eiriolwr ac un arall (Ymatebwyr) (Yr Alban*) ar 15 Tachwedd. Pan dderbynnir y dyfarniad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth ofalus iddo ac i unrhyw oblygiadau yn ei sgil i'r Bil.

Y dull o bennu isafbris uned

4) Sut y penderfynir lefel isafbris uned? Pa waith arall sydd angen ei wneud cyn llunio'r rheoliadau perthnasol? Beth yw'r amserlen?

Mae sail resymegol y polisi ar gyfer pennu isafbris uned wedi'i ddatblygu'n dda yng Nghymru - mae dau ymgynghoriad wedi'u cynnal. Ymgynghorwyd gyntaf ar y mater hwn fel rhan o'r Papur Gwyn ar Iechyd y Cyhoedd *Gwrando arnoch chi: Mae eich iechyd yn bwysig* yn 2014 a chynhaliwyd ymgynghoriad pum mis ar Fil drafft Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) yn 2015. Rydym wedi parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol a'r diwydiant alcohol yn ystod y ddwy flynedd ar ôl cyhoeddi'r Bil drafft. Bydd y gwaith ymgysylltu hwn yn parhau yn ystod taith y Bil drwy'r Cynulliad Cenedlaethol a chyn i unrhyw benderfyniad gel ei wneud mewn perthynas â lefel yr isafbris uned.

Mae'r Bil, fel y Bil drafft a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori yn 2015, yn nodi y bydd yr isafbris uned at ddibenion y Bil yn cael ei bennu mewn rheoliadau sydd i'w gwneud gan Weinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol, os daw'r Bil yn gyfraith. Mae ymgyngoriadau blaenorol Llywodraeth Cymru wedi bod yn seiliedig ar isafbris uned o 50c.

Ar hyn o bryd mae Prifysgol Sheffield yn diweddaru ei dadansoddiad o effeithiau modelu isafbris uned yng Nghymru a bydd yr adroddiad llawn, a fydd yn ystyried ystod o lefelau posibl o isafbrisiau uned, yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2018. Datblygir cynigion am y lefel y dylid pennu isafbris uned drwy ddefnyddio'r dystiolaeth ddiweddaraf hon a ffactorau eraill, megis data ar werthiant alcohol; fforddiadwyedd alcohol a data am niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod swm yr isafbris uned a bennir o ddiddordeb mawr i'r Aelodau ac i randdeiliaid ehangach. O ganlyniad, mae nifer o gamau diogelu wedi'u cynnwys yn y cynigion ar gyfer pennu'r swm, nid lleiaf y ffaith y bydd angen i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymeradwyo'r rheoliadau a wneir.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddefnyddio enghraifft o isafbris uned (50c yn bennaf) yn y dogfennau ategol ar gyfer y Bil, gan gynnwys y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r dogfennau hyn hefyd yn ei gwneud yn glir y gallai'r isafbris uned a bennir mewn rheoliadau yn y pen draw fod yn uwch neu'n is na'r swm hwn. Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi yn amlinellu'r bwriad polisi ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth y byddai gan Weinidogion Cymru rym i'w gwneud neu y bydd yn ofynnol iddynt ei gwneud, o dan ddarpariaethau'r Bil.

Fel y nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol, y cynnig yw y bydd yr isafbris yn dod i rym 12 mis o'r dyddiad y bydd y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol. Cyn hynny, gwneir gwaith i sicrhau bod y pris a bennir yn y rheoliadau yn briodol ac yn cael ei bennu ar y lefel sydd fwyaf tebygol o gyflawni'r nod polisi o ostwng lefelau yfed peryglus a niweidiol yng Nghymru.

5) Beth yw bwriad Llywodraeth Cymru o ran adolygu lefel isafbris uned yn y dyfodol - pa mor aml y gwneir hynny, er enghraifft, a pha ddull a ddefnyddir i adolygu/newid isafbris uned?

Byddwn yn adolygu lefel yr isafbris uned i sicrhau ei fod wedi'i osod ar y lefel fwyaf priodol i gyflawni'r amcanion iechyd y cyhoedd sy'n gysylltiedig â'r Bil. Rydym yn bwriadu cynnal adolygiad mewnol o lefel yr isafbris uned a bennir yn wreiddiol ar ôl y ddwy flynedd gyntaf yn dilyn dyddiad cyflwyno'r isafbris a gynigir gan y Bil. Os teimlir bod angen addasu lefel yr isafbris uned, byddai unrhyw reoliadau sy'n diwygio'r swm hwn yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol.

Bydd yr adolygiad ffurfiol ar ôl pum mlynedd yn canolbwyntio ar weithrediad ac effaith y Ddeddf yn ystod y cyfnod hwnnw. Bydd yn seiliedig ar raglen barhaus o fonitro a gwerthuso.

6) Beth yw'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail i'r cynigion? Sut y dangoswyd y cysylltiad rhwng pris alcohol, y defnydd o alcohol a niwed? Yn benodol, pa dystiolaeth sy'n dangos y bydd y rhai sy'n yfed lefelau alcohol peryglus/niweidiol yn yfed llai o dan bolisi isafbris uned?

Mae isafbris uned yn targedu'n benodol y rhai sy'n yfed i lefelau peryglus a niweidiol, gan mai dyma'r yfwyr sy'n tueddu i yfed alcohol rhad a chryf.

Yfwyr peryglus a niweidiol hefyd yw'r unigolion hynny sydd â'r canlyniadau iechyd gwaethaf - mewn perthynas â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol - a dyma'r rhai sydd â'r mwyaf i'w ennill yn sgil y ddeddfwriaeth hon. Darperir tystiolaeth ar effaith wedi'i dargedu yr isafbris uned yn adroddiad 2014 ar effeithiau isafbris uned, a gyhoeddwyd gan Brifysgol Sheffield. Nododd yr adroddiad hwn ar draws y boblogaeth gyfan, pe bai'r isafbris uned yn cael ei bennu'n 50c, y byddai hyn yn effeithio ar 38.4% o'r unedau a brynir ond roedd hyn yn wahanol yn dibynnu ar y math o yfwr. Ar gyfer yfwyr niweidiol, effeithiwyd ar 46.4% o unedau; effeithiwyd ar 35.9% o unedau ar gyfer yfwyr peryglus a 23.5% o unedau ar gyfer yfwyr cymedrol.

Dangosodd dadansoddiad Prifysgol Sheffield hefyd fod y gostyngiadau yn y defnydd yn amrywio yn ôl y math o yfwr. Amcangyfrifwyd y byddai yfwyr niweidiol yn gostwng eu lefelau yfed 7% (293.2 o unedau y flwyddyn) gyda gostyngiadau o 2% ar gyfer yfwyr peryglus (28.8 o unedau y flwyddyn) ac yfwyr cymedrol (6.4 uned y flwyddyn).

Yn fwy cyffredinol, ceir tystiolaeth gref i gefnogi'r cysylltiad rhwng pris alcohol a lefelau yfed ac ar y cysylltiad uniongyrchol rhwng lefelau yfed a niwed a chaiff y dystiolaeth hon ei chrynhoi yn y Memorandwm Esboniadol.[2] Wrth i alcohol ddod yn fwy fforddiadwy, mae lefelau yfed yn cynyddu. Wrth i lefelau yfed gynyddu, mae niwed yn cynyddu. Felly, mae Llywodraeth Cymru o'r farn, os byddwn yn cynyddu pris y diodydd rhataf, gallwn gael effaith bwysig ar ostwng lefelau yfed a lleihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol.

Fel yr amlygir yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r galw am nwyddau a gwasanaethau yn cael ei ddylanwadu'n gryf gan bris ac mae hyn yn wir am alcohol hefyd. Mae'r rhan fwyaf o ymchwil a dadansoddiad am alcohol a phris yn awgrymu bod perthynas achosol rhwng pris alcohol, faint o alcohol sy'n cael ei yfed a chanlyniadau iechyd niweidiol. Felly, mae cynyddu pris alcohol yn darparu mecanwaith i wella iechyd.[3]

Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn tynnu sylw at nifer o adolygiadau systematig o'r dystiolaeth ar effeithiau pris ar lefelau yfed sy'n cefnogi'r casgliad hwn. Er enghraifft, mae paragraff 104 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r adolygiad systematig gan Wagenaar et al. (2009) sy'n archwilio'r berthynas rhwng treth ar alcohol neu lefelau prisiau alcohol, a gwerthiant alcohol neu lefelau yfed a hunanadroddir.[4] Canfu'r adolygiad hwn gyfanswm o 112 o astudiaethau sy'n dangos effeithiau'n gysylltiedig â threth ar alcohol neu bris alcohol gan nodi'n benodol bod yr effeithiau hyn yn fawr o'u cymharu â pholisïau a rhaglenni atal eraill.

Yn 2014, cyhoeddodd y Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau adroddiad yn adolygu isafbris uned a'i botensial i gyflwyno newid a gostwng lefelau yfed yng Nghymru. I grynhoi, ar ôl adolygu'r llenyddiaeth isafbris uned ac ystyried y dystiolaeth arbenigol a gyflwynwyd iddo, argymhellodd y Panel Cynghori y dylid cyflwyno isafbris uned i fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol ymysg y grwpiau sy'n agored i niwed y mae lefelau yfed peryglus a niweidiol yn effeithio arnynt fwyaf. Roedd o'r farn, er bod yr isafbris uned (a'r dystiolaeth o'i blaid) wedi cael ei feirniadu, roedd y dystiolaeth yn helaeth serch hynny, ac mae modelu effeithiau isafbris uned yng nghyd-destun y DU wedi'i hen sefydlu ac yn gadarn. Ystyriodd y Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau y byddai effeithiau isafbris uned yn wahanol ar gyfer is-grwpiau gwahanol o'r boblogaeth: felly mae isafbris uned yn galluogi'r rhai sy'n yfed alcohol i raddau mwy niweidiol neu beryglus i gael

[2] Gweler yr adran sy'n dwyn y teitl "Tystiolaeth yn ymwneud ag alcohol a phris " - sy'n dechrau ar dudalen 27 y Memorandwm Esboniadol.

[3] Hobday, M., Gordon, E., Meuleners, L., Liang, W. a Chikritzhs, T. (2016) The effect of price increases on predicted alcohol purchasing and decision and choice to substitute. Addition Research and Theory. Cyfrol 24.

[4] Wagenaar, A., Salois, M., a Komro, K., (2009) Effects of beverage alcohol price and tax levels on drinking: a meta-analysis of 1003 estimates from 112 studies. Addiction, Cyfrol 104. Tudalennau 179-190.

eu targedu, ac yn cael effeithiau llai ar yfwyr cymedrol, yn enwedig y rhai ar incwm isel.

7) A gafodd strategaethau eraill i leihau fforddiadwyedd alcohol eu hystyried? Pam y mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai isafbris uned fydd y dull gweithredu mwyaf effeithiol?

Do. Ystyriodd Model Sheffield 2014, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, amcangyfrif o effaith y gwaharddiad ar werthu alcohol am bris is na chost y doll a'r TAW sy'n daladwy ar y dreth honno. Daeth i'r casgliad mai prin fyddai effaith y gwaharddiad hwn ar lefelau yfed alcohol neu niwed cysylltiedig.

Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn edrych yn benodol ar y dystiolaeth ar drethiant ac yn ymchwilio i ba raddau y gallai trethiant dargedu lefelau yfed peryglus a niweidiol, o'i gymharu â chyflwyno isafbris uned.

Mae tystiolaeth yn awgrymu na fyddai trethiant uwch mor effeithiol â chyflwyno isafbris uned o ran mynd i'r afael ag amcan y Bil. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn na fydd trethiant ar ei ben ei hun (fel y mae ar hyn o bryd yn y DU) yn targedu a lleihau lefelau yfed peryglus a niweidiol yn yr un ffordd â chyflwyno isafbris uned am alcohol.

Nod isafbris uned yw cynyddu pris alcohol rhad a chryf iawn, gan gyfyngu ar ei fforddiadwyedd ymhlith yfwyr peryglus a niweidiol sy'n tueddu i yfed yr alcohol rhataf. Ni fydd trethiant uwch yn gwarantu isafbris am alcohol gan y gall manwerthwyr amsugno cynnydd mewn treth drwy gynnwys hynny yng nghost cynhyrchion eraill. Bydd isafbris uned, ar y llaw arall, yn gwarantu nad yw alcohol yn cael ei werthu islaw lefel benodol. Er bod trethiant yn cynyddu pris alcohol, nid yw'n darparu'r un cyfle i leihau lefelau yfed peryglus a niweidiol ag isafbris uned. At hynny, byddai trethiant (pe bai'n cael ei drosglwyddo i ddefnyddwyr) yn cynyddu pris pob math o alcohol. Felly, byddai cynyddu trethiant yn effeithio ar yfwyr cymedrol hefyd.

Mae gwaith modelu Sheffield yn 2014 yn awgrymu bod yfwyr niweidiol yn prynu mwy o'u halcohol am bris is na'r isafbris uned enghreifftiol o 50c yr uned ar bob lefel incwm (mae yfwyr niweidiol sy'n byw mewn tlodi yn prynu 42% o'u halcohol o dan 50c yr uned o'i gymharu â 21% o yfwyr cymedrol sy'n byw mewn tlodi, mae yfwyr niweidiol nad ydynt yn byw mewn tlodi yn prynu 28% o unedau o dan 50c o gymharu ag 14% o yfwyr cymedrol nad ydynt yn byw mewn tlodi). Felly byddai isafbris uned yn newid pris oddeutu un rhan o bump o'r alcohol a brynir gan yfwyr cymedrol mewn tlodi, ond byddai cynnydd mewn trethiant yn effeithio ar bob math o alcohol.

Fel rhan o'u dadansoddiad diwygiedig o effeithiau isafbris uned, mae Prifysgol Sheffield hefyd yn ystyried y cynnydd yn lefel y trethiant y byddai ei angen i sicrhau'r un canlyniadau iechyd ymhlith yfwyr peryglus a niweidiol ag isafbris uned o 50c.

Mae'r doll ar alcohol yn cael ei phennu ar lefel y DU gan Lywodraeth y DU. Nid yw wedi'i datganoli ac nid yw Llywodraeth Cymru yn gofyn i bwerau gael eu datganoli er mwyn pennu'r doll ar alcohol.

Effaith ehangach ar ddefnyddwyr

8) Un o'r beirniadaethau o'r system isafbris uned yw'r ffaith na fydd yn targedu'r rhai sy'n yfed lefelau niweidiol yn unig, ond y bydd yn creu costau ychwanegol i'r mwyafrif sy'n yfed yn gyfrifol. Pa effaith yr ydych yn disgwyl i'r Bil ei chael ar yfwyr cymedrol?

Mae ymchwil yn amcangyfrif mai bach iawn fydd yr effaith ar yfwyr cymedrol o ganlyniad i gyflwyno isafbris uned am alcohol. Er enghraifft, amcangyfrifodd y gwaith modelu a wnaed gan Brifysgol Sheffield yn 2014 er enghraifft mai prin fydd effaith yr isafbris uned ar yfwyr cymedrol. Dangosodd ymchwil Sheffield Alcohol Research Group fod yfwyr cymedrol yn cynrychioli 74% o'r boblogaeth yfed, ond eu bod yn yfed dim ond 28% o'r holl alcohol.

Yn benodol, mae cyflwyno isafbris uned yn targedu diodydd penodol - cynhyrchion rhad a chryf. Mae'r mathau hyn o gynhyrchion yn fwy tebygol o gael eu hyfed gan y rhai sy'n yfed i lefelau peryglus a niweidiol, fel y dengys y dystiolaeth y cyfeirir ati yn yr ateb i gwestiwn saith.

Dangosodd Prifysgol Sheffield hefyd y byddai newidiadau mewn gwariant yn wahanol ar draws y boblogaeth. Amcangyfrifir y bydd yfwyr niweidiol yn gwario £32 (1.1%) y flwyddyn yn ychwanegol ond y byddai gwariant yfwyr cymedrol yn cynyddu £2 y flwyddyn (0.8%) yn seiliedig ar isafbris uned o 50c. At hynny, byddai newidiadau mewn lefelau yfed yn amrywio ar draws y boblogaeth yfed. Yn seiliedig ar isafbris uned o 50c, amcangyfrifodd dadansoddiad yn 2014 y bydd yfwyr niweidiol yn yfed 293 yn llai o unedau y flwyddyn ond byddai yfwyr cymedrol ond yn yfed chwe uned y flwyddyn yn llai.

9) Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cydnabod bod system isafbris uned yn debygol o effeithio ar yfwyr dibynnol. Pa asesiad sydd wedi'i wneud o'r angen am wasanaethau ychwanegol i gynorthwyo'r rhai sy'n dibynnu ar alcohol?

Mae'r Bil hwn wedi'i dargedu at ddiogelu iechyd yfwyr peryglus a niweidiol sy'n tueddu i ddefnyddio mwy o gynhyrchion rhad sy'n cynnwys lefelau alcohol uchel. Dim ond cyfran fach o'r grwpiau hyn o yfwyr sy'n ddibynnol ar alcohol.

Serch hynny, rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan rai y gallai'r risg fod yn fwy i'r rhai sy'n yfed ar lefelau niweidiol iawn (ac sy'n yfed cynhyrchion rhad sy'n cynnwys lefelau alcohol uchel y bydd yr isafbris uned yn effeithio arnynt) - yn sgil symptomau diddyfnu - yn enwedig os dim ond swm penodol o arian sydd ganddynt i'w wario ar alcohol. Rydym yn cydweithio'n agos â darparwyr gwasanaethau trin alcohol yng Nghymru a byddwn hefyd yn dysgu gwersi o'r gwerthusiad arfaethedig o ddeddfwriaeth debyg yn yr Alban, sy'n cynnwys astudiaeth benodol o effeithiau isafbris uned ar yfwyr niweidiol.

Byddem hefyd yn pwysleisio mai dim ond un rhan o ddull gweithredu strategol ehangach a pharhaus Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yw'r isafbris uned. Mae polisi alcohol yng Nghymru yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau sydd, o'u hystyried gyda'i gilydd, yn anelu at addysgu pobl am beryglon yfed alcohol yn ormodol ac i yfed yn gyfrifol.

Mae manylion y camau gweithredu presennol a pholisïau eraill gan Lywodraeth Cymru wedi'u nodi yn y Memorandwm Esboniadol ac mae'n rhan o strategaeth camddefnyddio sylweddau 10 mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol, cyffuriau a sylweddau eraill - *Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed*.

10) Eich ymateb i'r pryder bod isafbris uned yn fesur anflaengar a fydd yn effeithio'n bennaf ar y rhai mewn tlodi.

Mae nifer anghymesur o bobl sy'n byw mewn tlodi yn debygol o ymatal rhag yfed alcohol neu'n debygol o yfed symiau bach iawn - a bydd cyflwyno isafbris uned am alcohol yn cael effaith fach iawn ar bobl sy'n byw mewn tlodi sy'n ymatal rhag yfed alcohol neu sy'n yfwyr cymedrol.

Mae pobl sy'n byw mewn tlodi yn yfed llai ar gyfartaledd na'r rhai sy'n byw uwchlawr'r llinell dlodi. Mae yfwyr cymedrol, peryglus a niweidiol sy'n byw mewn tlodi yn yfed 4.9; 25.9 a 71.7 uned yr wythnos yn y drefn honno, o'i gymharu â 5.6; 28.2 a 79.8 uned yr wythnos ar gyfer y rhai nad ydynt yn byw mewn tlodi. Bydd yr isafbris uned yn cael effaith ar yfwyr peryglus a niweidiol sy'n byw mewn tlodi.

Fel enghraifft, yn 2014 amcangyfrifodd Prifysgol Sheffield o ran yfwyr niweidiol sy'n byw mewn tlodi, fod 42% o'r holl unedau a brynir o dan 50c, o'i gymharu â 28% ar gyfer y rhai nad ydynt yn byw mewn tlodi. O ran yfwyr cymedrol, mae'r ffigurau yn 21% ar gyfer y rhai sy'n byw mewn tlodi ac 14% ar gyfer y rhai nad ydynt yn byw mewn tlodi.[5]

[5] http://gov.wales/docs/caecd/research/2014/141208-model-based-appraisal-minimum-unit-price-alcohol-en.pdf

O ran y rhai sy'n yfed i lefelau peryglus a niweidiol, mae pobl ar incwm isel neu sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd yn fwy tebygol o ddioddef salwch hirdymor, o ganlyniad i yfed gormod. Gall isafbris uned am alcohol ostwng lefelau yfed peryglus a niweidiol ymysg y grwpiau hyn, gan olygu y byddai'r risg o niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yn lleihau.

Pobl yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol isaf sy'n yfwyr niweidiol a fydd yn cael y manteision iechyd mwyaf yn sgil y polisi, o ganlyniad i ostyngiadau a ragwelir mewn lefelau yfed alcohol.

Amcangyfrifodd Prifysgol Sheffield yn flaenorol y byddai'r isafbris uned o 50c yn arwain at y gostyngiadau mwyaf mewn marwolaethau a derbyniadau i'r ysbyty fesul 100,000 o yfwyr ar gyfer y rhai sy'n byw mewn tlodi yn hytrach na'r rhai nad ydynt yn byw mewn tlodi: pump yn llai o farwolaethau a 120 yn llai o dderbyniadau i'r ysbyty fesul 100,000 o yfwyr ar gyfer y rhai sy'n byw mewn tlodi, o'i gymharu â dwy yn llai o farwolaethau a 50 yn llai o dderbyniadau i'r ysbyty fesul 100,000 o yfwyr ymysg y rhai nad ydynt yn byw mewn tlodi.

11) Sut y caiff effeithiau'r Bil ar grwpiau incwm isel a grwpiau agored i niwed eu monitro a'u lliniaru?

Rydym yn deall ac wedi nodi'r pryderon a godwyd gan rai ynghylch yr effeithiau andwyol posibl, a allai godi o ganlyniad i'r cynigion a nodir yn y Bil. Er enghraifft, mynegwyd pryderon na fydd aelwydydd incwm isel sy'n yfed alcohol rhad yn gallu ymaddasu'n ariannol ac y gallai cyllidebau aelwydydd gael eu heffeithio os bydd yfwyr niweidiol a pheryglus yn parhau i yfed alcohol ar yr un lefel â chyn i'r isafbris uned gael ei gyflwyno. Rydym hefyd yn ymwybodol bod rhai rhanddeiliaid wedi codi pryderon y gall rhai grwpiau sy'n agored i niwed ddioddef symptomau diddyfnu yn sgil gostwng eu lefelau yfed (yn wyneb cynnydd ym mhris alcohol) ac efallai y bydd angen iddynt gael gwasanaethau cymorth neu driniaeth mewn ysbyty i leddfu a helpu i reoli symptomau diddyfnu.

Er bod y pryderon hyn yn cael eu deall, o fewn y Memorandwm Esboniadol, rydym yn pwysleisio nad ydym yn disgwyl y bydd niferoedd mawr o bobl yn defnyddio gwasanaethau yn sgil symptomau diddyfnu'n gysylltiedig ag alcohol. Ar gyfer yfwyr niweidiol, amcangyfrifir y bydd isafbris uned o 50c yn gostwng lefelau yfed alcohol cymedrig wythnosol 7.2% - neu amcangyfrif o 5.6 uned yr wythnos. Mae'n annhebygol y byddai'r math hwn o ostyngiad yn arwain at nifer sylweddol o bobl y byddai angen triniaeth arnynt ar gyfer symptomau diddyfnu. Serch hynny, hyd yn oed os byddwn yn gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau camddefnyddio sylweddau wrth iddynt ostwng eu lefelau yfed, byddwn hefyd yn disgwyl gweld lleihad yn nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol. Mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn bwriadu ei fonitro'n fanwl.

Mae hefyd yn bwysig cydnabod na fwriadwyd neu na ddisgwylir i isafbris uned weithio ar ei ben ei hun. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i gyfeirio pobl at wasanaethau perthnasol cyn gweithredu'r isafbris uned. Mae angen inni sicrhau bod pobl yn cael mynediad i'r cymorth a'r gwasanaethau sydd eisoes ar gael. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau bod gwasanaethau lleol mor ymatebol â phosibl i anghenion grwpiau o bobl sydd ar incwm isel ac sy'n agored i niwed. Mae gwasanaethau triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau ar gael yn gyfleus ac mae'r amseroedd aros yn gwella yn y maes hwn.

Mae effeithiau isafbris uned ar grwpiau incwm isel a grwpiau sy'n agored i niwed yn fater y byddwn yn parhau i'w ystyried yn ystod taith y Bil drwy'r Cynulliad Cenedlaethol ac wrth i'r isafbris uned gael ei weithredu.

Effaith amnewid

12) Yr hyn sy'n hysbys am yfed alcohol heb ei gofnodi yng Nghymru. A yw gwaith modelu Prifysgol Sheffield yn ystyried hyn? (Gall 'alcohol heb ei gofnodi' gynnwys alcohol wedi'i gynhyrchu gartref neu'n answyddogol (cyfreithiol neu anghyfreithlon), alcohol wedi'i smyglo, alcohol a fwriedir ar gyfer defnyddiau diwydiannol neu feddygol, ac alcohol a geir trwy siopa trawsffiniol (a gofnodir mewn awdurdodaeth wahanol)).

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd cyflwyno isafbris uned yn arwain at gynnydd yn y defnydd o alcohol heb ei gofnodi (gan gynnwys alcohol wedi'i gynhyrchu gartref neu'n anffurfiol, alcohol wedi'i smyglo, alcohol a fwriedir ar gyfer defnyddiau diwydiannol neu feddygol ac alcohol a geir drwy siopa trawsffiniol) ond mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn bwriadu ei fonitro'n fanwl.

Nid ydym o'r farn bod unrhyw gynnydd yn y pris yn deillio o gyflwyno isafbris uned yn debygol o fod yn ddigonol i ysgogi'r mathau hyn o weithgaredd, nad ydynt yn broblem sylweddol ar hyn o bryd yng Nghymru.

Yn ei adolygiad o botensial yr isafbris uned mewn cyd-destun Cymreig a gynhaliwyd gan y Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau yn 2014, daethpwyd i'r casgliad bod cynhyrchu alcohol gartref yn annhebygol o ddigwydd ymysg y grwpiau

o yfwyr sydd fwyaf agored i niwed, yn bennaf oherwydd yr amser sy'n ofynnol ar gyfer y broses eplesu a chost y cyfarpar angenrheidiol.

13) Beth yw lefel y risg y gallai cyflwyno system isafbris uned arwain at gynnydd yn y defnydd o ddewisiadau amgen anghyfreithlon neu beryglus? Sut y bydd y risg hon yn cael ei monitro?

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pryderon a godwyd gan rai bod perygl y gallai defnyddwyr newid i ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon neu sylweddau seicoweithredol newydd, yn sgil cynnydd mewn isafbris alcohol.

Rydym o'r farn bod y risg hon yn isel, gan fod ansawdd sylweddau anghyfreithlon neu annisgwyl yn wahanol i yfed alcohol yn gyfreithlon ac ni fyddai'r rhan fwyaf o bobl yn eu hystyried yn ddewis amgen dilys. Serch hynny, mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn bwriadu ei drafod ymhellach gyda'r Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau. Mae'r panel wedi dweud yn y gorffennol: “Some consumers may substitute other psycho-active products for alcohol”. Mae APoSM hefyd yn nodi: “Evidence of the extent of such behaviour is scarce, although it suggests only a very small proportion of problematic drinkers, who already have other substance misuse issues, would respond in this way.”[6]

Darganfu ymchwil a gyhoeddwyd gan Alcohol Research UK yn 2015, a oedd yn seiliedig ar astudiaeth hydredol o yfwyr dibynnol yn yr Alban, mai prin iawn oedd y dystiolaeth bod pobl yn defnyddio sylweddau eraill (megis cyffuriau) yn lle alcohol neu'n yfed alcohol anghyfreithlon, pan oedd incwm y cartref wedi lleihau yn dilyn cyflwyno newidiadau i'r system les.[7]

Mae hwn yn fater y byddwn yn parhau i'w ystyried wrth i'r isafbris uned gael ei roi ar waith**.**

Yr Effaith ar Awdurdodau Lleol

14) Sut ydych chi wedi asesu gallu awdurdodau lleol i orfodi'r system isafbris uned? Pa gymorth ychwanegol yr ydych chi'n bwriadu ei ddarparu (gan gynnwys cymorth ariannol ac arweiniad) i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu cyflawni'r swyddogaethau a osodir arnynt gan y Bil hwn?

Rydym wedi cydweithio'n agos â llywodraeth leol hyd yma ynghylch y drefn orfodi a arweinir gan awdurdodau lleol a nodir yn y Bil. Bydd y system hon yn adeiladu ar strwythurau presennol i sicrhau y gwneir y defnydd gorau o wybodaeth ac arbenigedd lleol, sydd eisoes ar waith ledled Cymru.

[6] Panel Cynghori Llywodraeth Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau (2014) Minimum Unit Pricing A Review of its Potential in a Welsh Context. Adroddiad a Gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014.

[7] http://alcoholresearchuk.org/downloads/finalReports/FinalReport_0128.pdf

Mae Llywodraeth Cymru yn deall y bydd yn bwysig sicrhau bod gan awdurdodau lleol adnoddau digonol o ran gorfodi'r Bil, yn enwedig o ran awdurdodau lleol yn ymgymryd â gweithgareddau arolygu a gorfodi sy'n ychwanegol at yr hyn a fyddai'n digwydd fel rhan o'r trefniadau arolygu presennol.

O ganlyniad, rydym wedi nodi yn y Memorandwm Esboniadol y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu £150,000 i awdurdodau lleol am y gweithgaredd arolygu a gorfodaeth "ychwanegol" yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu'r ddeddfwriaeth; £100,000 yn ystod yr ail flwyddyn a £50,000 yn ystod y drydedd flwyddyn.

Ar hyn o bryd mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn trafod y goblygiadau o ran adnoddau ar gyfer gorfodi'r ddeddfwriaeth gyda Phenaethiaid Safonau Masnach Cymru, yn enwedig yn ystod y camau gweithredu cynnar a byddaf yn rhoi diweddariad pellach i'r pwyllgor wrth i'r trafodaethau hyn fynd rhagddynt.

15) Mae adran 16 o'r Bil yn caniatáu i swyddog awdurdodedig awdurdod lleol (a awdurdodir gan warant o dan adran 14) fynd i mewn i annedd gyda phobl a chyfarpar ychwanegol. Pa fesurau diogelu sydd ar waith i atal camddefnyddio pŵer adran 16 pan fydd swyddog awdurdodedig awdurdod lleol yn mynd i mewn i annedd drwy warant gydag unrhyw bersonau ac offer eraill y mae'r swyddog o'r farn eu bod yn briodol?

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai'r drefn orfodi arfaethedig yn sicrhau cydbwysedd teg a chymesur rhwng hawliau unrhyw un yr effeithir arno gan unrhyw bwerau mynediad a gorfodi'r isafbris uned arfaethedig yn effeithiol. Rydym yn fodlon bod y drefn orfodi a gynigir yn y Bil yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol neu y gellir ei arfer mewn modd sy'n gydnaws â'r confensiwn.

Mae Adran 16 y Bil yn gwneud darpariaeth atodol ynghylch pwerau mynediad. O ganlyniad, ni allai swyddog awdurdodedig arfer y pŵer o dan adran 16(1) i fynd â phobl a chyfarpar ychwanegol gydag ef fel y mae'r swyddog yn ystyried eu bod yn briodol oni bai bod mynediad yn cael ei ganiatáu o dan adrannau 13, 14 a 15 o'r Bil a'i fod yn ymwneud â mater sy'n gyson ag amcanion darpariaethau gorfodi'r Bil. Mae amrywiol gamau diogelu wedi'u cynnwys yn adrannau 13, 14 a 15.

Mae Adran 14 y Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch gwarantau i alluogi swyddogion awdurdodedig awdurdod lleol i fynd i anheddau. Fodd bynnag, dim ond pan fo Ynad Heddwch yn fodlon bod seiliau rhesymol dros gredu bod trosedd wedi'i chyflawni o dan adran 2 o'r Bil a'i bod yn angenrheidiol mynd i'r fangre at ddiben canfod a yw trosedd o'r fath wedi ei chyflawni y gellir dyroddi gwarant.

Mae camau diogelu hefyd wedi'u cynnwys yn adran 16, gan gynnwys, os yw meddiannydd y fangre yr aethpwyd iddi drwy warant yn bresennol, yna mae'n rhaid

i'r swyddog awdurdodedig hysbysu'r deiliad o enw'r swyddog, cyflwyno tystiolaeth o'i awdurdodiad a chyflenwi copi o'r warant i'r meddiannydd.

Yn ychwanegol at y gwahanol ddulliau diogelu sy'n cael eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth, bydd y pwerau gorfodi a roddir i swyddogion awdurdodedig yn gweithredu yng nghyd-destun gwahanol ddulliau diogelu presennol eraill megis Deddf Hawliau Dynol 1998. Yn yr un modd, bydd angen rhoi sylw i God B Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, sy'n berthnasol i'r rhai sy'n gyfrifol am y ddyletswydd i ymchwilio i droseddau. Mae'r cod hwn hefyd yn rhoi arweiniad cyffredinol sefydledig sy'n rhoi pwyslais clir ar weithredu yn unol â hawliau'r Confensiwn.

Effaith ar fanwerthwyr, gan gynnwys materion trawsffiniol

16) Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn disgrifio 'elfen o ansicrwydd' ynglŷn ag ymateb posibl y diwydiant alcohol i'r broses o gyflwyno system isafbris uned. Pe bai cyflwyno system isafbris uned yn arwain at fwy o elw i'r diwydiant alcohol (fel y rhagwelir gan fodel Sheffield), a oes perygl y gallai hynny danseilio bwriadau polisi'r Bil?

Fel y noda'r pwyllgor, mae model Sheffield yn amcangyfrif y byddai'r refeniw i fanwerthwyr yn cynyddu o dan bob un o'r polisïau a fodelwyd a ystyriwyd yn 2014. Fodd bynnag, daeth yr un model i'r casgliad y byddai polisïau isafbris uned yn effeithiol o ran lleihau'r defnydd o alcohol, niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol (gan gynnwys marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol, derbyniadau i'r ysbyty, troseddau ac absenoldeb yn y gweithle) a'r costau sy'n gysylltiedig â'r niwed hwnnw.

Felly, nid yw Llywodraeth Cymru yn ystyried y bydd hyn yn tanseilio bwriadau polisi'r Bil, sef lleihau lefelau yfed peryglus a niweidiol yng Nghymru yn bennaf drwy leihad'r alcohol rhad a chryf sydd ar gael.

17) A allwch chi egluro ynglŷn ag a fyddai/sut y byddai system isafbris uned yn berthnasol os yw rhywun sy'n byw yn Lloegr yn archebu cynhyrchion alcohol sy'n cael eu dosbarthu o Gymru - gan fanwerthwr a leolir yng Nghymru yn unig, neu gan fanwerthwyr mwy sy'n gweithredu ledled y DU?

Mesur iechyd y cyhoeddus yw hwn sy'n ymwneud â lefelau yfed alcohol peryglus a niweidiol yng Nghymru. O ganlyniad, byddai'r drosedd adran 2 yn berthnasol i gyflenwi alcohol o fangre gymhwysol yng Nghymru ac i awdurdodi cyflenwi alcohol o fangre gymhwysol yng Nghymru, i berson yng Nghymru.

I grynhoi, mae hyn yn golygu, pan fydd alcohol a brynwyd yn cael ei ddosbarthu i gwsmer, a bod y drwydded ar gyfer y fangre gymhwysol yn cael ei dal yng Nghymru, byddai darpariaethau'r Bil yn berthnasol i'r holl werthiannau a ddosberthir yng

Nghymru, ond ni fyddent yn berthnasol i werthiannau a fyddai'n cael eu dosbarthu i gyfeiriad yn Lloegr.

18) Pa asesiad sydd wedi'i wneud o'r effaith ar fanwerthwyr ledled y DU a fydd yn gorfod gweithredu system brisio wahanol yng Nghymru o gymharu â Lloegr a gweddill y DU?

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil yn cynnwys asesiad am yr effaith ar fanwerthwyr. Mae'r asesiad hwn yn cydnabod bod costau cydymffurfio yn debygol o fod ar gyfer manwerthwyr mewn perthynas â gweithredu'r isafbris uned. Ymhlith cyfanswm costau cydymffurfio a amcangyfrifir ar gyfer manwerthwyr yn yr allfasnach mae: £756,400 yn y flwyddyn gyntaf i ymgyfarwyddo'n llawn â gofynion y ddeddfwriaeth a phrisiau sy'n newid, yn ogystal â £75,000 bob blwyddyn ar gyfer cydymffurfio ac ymgyfarwyddo parhaus (gweler tabl dau, rhan dau, Asesiad Effaith Rheoleiddiol).

Yn ogystal, mae paragraff 285 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn tynnu sylw at y ffaith y gallai busnesau mwy sy'n gweithredu ledled y DU wynebu costau sy'n gysylltiedig â gwahanol brisiau a gwahanol drefn hyrwyddo yng Nghymru. Ni ystyrir y bydd cost ailbrisio a labelu ar yr adeg gweithredu yn ormodol, gan fod y siopau hyn yn ailbrisio eu cynhyrchion yn rheolaidd, gan gynnwys mewn ymateb i newidiadau mewn tollau alcohol ar fyr rybudd. Fodd bynnag, nid yw'r costau hyn yn hysbys.

Yn y pen draw, cyfrifoldeb pob manwerthwr ledled y DU fydd ystyried sut y bydd yn cydymffurfio â'r system isafbris a gynigir yn y Bil. Fodd bynnag, yn ystod taith y Bil drwy'r Cynulliad Cenedlaethol ac wrth iddo gael ei weithredu, byddwn yn gweithio'n agos gyda'r diwydiant alcohol a manwerthu, yn enwedig drwy Rwydwaith Diwydiant Alcohol Llywodraeth Cymru, i godi ymwybyddiaeth o hyn a'i drafod ymhellach.

19) A yw cyflwyno isafbris uned yn debygol o annog defnyddwyr i groesi'r ffin i brynu alcohol yn Lloegr, ac a fydd hyn yn cael effaith negyddol ar fusnesau Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd ar y ffin?

Mae siopa trawsffiniol eisoes yn digwydd ond credwn mai bach iawn fydd effeithiau cyflwyno isafbris uned.

Cydnabyddir y gall gwahanol systemau yng Nghymru a Lloegr gael effaith ar ymddygiad defnyddwyr, yn dibynnu ar y parodrwydd a'r gallu i deithio, ynghyd â'r gwahaniaeth mewn prisiau o gymharu â chostau trafnidiaeth. Ond, i'r rhan fwyaf o boblogaeth Cymru, byddai prynu alcohol yn Lloegr yn golygu cost o ran amser a theithio. Mae'r gost hon yn debygol o fod yn fwy nag unrhyw arbedion ar bris alcohol.

Gwyddom hefyd nad yw'r mwyafrif o yfwyr peryglus a niweidiol yn byw mewn ardaloedd sy'n agos at y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Mae dadansoddiad 2015 yn

dangos bod siopa trawsffiniol yng Nghymru yn digwydd yn fwy mewn ardaloedd gwledig yn y rhanbarth ffiniol ganolog, yn hytrach na'r ardaloedd trefol yn rhanbarthau'r gogledd a'r de, lle mae patrymau yfed yn drymach. Mae'r dadansoddiad hwn wedi'i gynnwys yn yr adran Asesu Cystadleuaeth yn y Memorandwm Esboniadol.

Mae'r isafbris uned yn targedu'r gyfran o yfwyr sy'n yfed symiau peryglus neu niweidiol o alcohol, sy'n fwy tebygol o fod yn prynu alcohol i'w yfed ar unwaith. Ystyrir y bydd hyn yn lleihau'r cymhelliad i deithio ymhellach nag y byddent fel arfer, er mwyn osgoi talu mwy am eu halcohol o ganlyniad i isafbris uned.

Serch hynny, rydym yn cydnabod y bydd rhai pobl mewn rhai rhannau o Gymru yn penderfynu croesi'r ffin a phrynu alcohol yn Lloegr. Ond rydym yn rhagweld y byddai'r niferoedd yn fach ac ni fyddai'n tanseilio effeithiolrwydd cyffredinol y Bil fel mesur poblogaeth iechyd y cyhoedd. Er enghraifft, roedd effaith amcangyfrifedig isafbris uned o 50c ar yfwyr cymedrol (74% o'r boblogaeth yfed yng Nghymru) o ran gwariant, yn 2014, yn gynnydd o £2 y flwyddyn. Rydym o'r farn bod y swm hwn yn annhebygol o newid arferion siopa yn sylweddol.

Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad i fanwerthwyr a swyddogion gorfodi ar y system newydd arfaethedig. Rydym eisoes yn ymgysylltu â manwerthwyr a'r diwydiant alcohol drwy Rwydwaith Diwydiant Alcohol Llywodraeth Cymru a bydd fy swyddogion yn cwrdd â chynrychiolwyr Consortiwm Manwerthu Cymru hefyd.

20) A fydd cyflwyno system isafbris uned yn cael effaith anghymesur ar fusnesau llai o ran maint, a allai wynebu costau gweithredu uwch er enghraifft?

Rydym yn derbyn y bydd rhai costau gweithredu sy'n gysylltiedig â chyflwyno isafbris uned ond credwn y bydd nifer fawr o fanwerthwyr yn gallu amsugno'r costau hyn yn sgil y budd cyffredinol o gynnydd mewn refeniw. Amcangyfrifodd y gwaith modelu a wnaed gan Brifysgol Sheffield y byddai refeniw i fanwerthwyr yn cynyddu ar draws pob polisi a ystyriwyd, gyda chynnydd mewn refeniw i fanwerthwyr o £27 miliwn y flwyddyn pe bai'r isafbris uned yn cael ei bennu'n 50c.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r holl fanwerthwyr, gan gynnwys busnesau bach, yn ystod y broses o weithredu'r system isafbris uned arfaethedig i leihau costau, lle bynnag y bo modd.

21) Pa arweiniad a chymorth y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu darparu i fanwerthwyr, a pham nad yw hyn wedi'i osod ar wyneb y Bil?

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau ynghylch y Bil i gynorthwyo pobl i ddeall y system newydd arfaethedig. Ni chaiff y canllawiau hyn eu nodi ar wyneb y Bil gan y bydd yn rhan o'r broses weithredu. Bydd Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar ei phwerau cyffredinol presennol i gyhoeddi'r canllawiau hynny.

Fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn buddsoddi mwy na £100,000 mewn cyfathrebu yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu'r Bil. Rydym yn bwriadu cyhoeddi deunyddiau ategol, megis cyfrifiannell isafbris a deunyddiau cyhoeddusrwydd ar-lein, a fydd yn helpu manwerthwyr i ddeall y ddeddfwriaeth a'i goblygiadau o ran y cynhyrchion alcohol y maent yn eu gwerthu.

Yn ogystal, mae cynlluniau ar waith i ddarparu hyfforddiant i staff awdurdodau lleol, a fydd yn canolbwyntio ar ofynion y ddeddfwriaeth a'r dull gorfodi yng Nghymru.